# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cygnor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Cefnfaes ac yn rhithiol dros Zoom
**Nos Fercher 27 Mawrth 2024 am 7 o'r gloch**

**PRESENNOL:**

**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Neville Hughes

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Linda Brown
Y Cynghorydd Bleddyn Williams
Y Cynghorydd Einir Williams

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Michael Williams
Y Cynghorydd Huw Jones

**1. Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Walter Williams.

**Ymddiheuriadau** – Y Cyngr. Dyfrig Jones, Catrin Wager, Mary Jones, Ann Williams, Paul Rowlinson a Rheinallt Puw.

**2. Datgan Diddordeb**
Dim.

**3. Materion Brys**
**Lwfans Blynyddol -** Nodwyd fod pawb wedi derbyn ffurflen 'Rhestr Wirio' gan CThEM os ydynt am dderbyn y taliad neu'r ffurflen 'optio allan'. Yr aelodau i lenwi'r ffurflen berthnasol a'i anfon yn ôl at y Clerc, cyn gynted a bo modd.
**Glanhau'r Gofeb** - Adroddwyd fod y Clerc wedi derbyn cais gan aelod o'r cyhoedd i lanhau ac ail-beintio'r enwau ar y gofeb, penderfynwyd bydd y Clerc yn mynd ymlaen i gael prisiau am y gwaith.
**Problemau baw ci yng ngardd Capel Jerusalem -** Penderfynwyd bydd y Cyng. Einir Williams yn mynd yno i osod posteri ac i roi dosbarthwyr bagiau baw ci yno.

**4. Cofnodion**
Angen addasu ac ychwanegu rhai o'r blaenlythrennau datgan diddordeb ar y rhoddion, y Clerc i addasu. Yn dilyn hyn, cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Chwefror 2024.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**5.1 Maes parcio ger y Sior, Carneddi - Cais i ail beintio'r llinellau -** Y Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd os oes modd ail beintio'r llinellau. Nodwyd y Cyng. Einir Williams ei bod wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd aml waith, a'u bod angen gwirio perchnogaeth y maes parcio hwn.

Cytunwyd y bydd y Cyng. Einir Williams yn holi Cyngor Gwynedd eto, a'r Clerc i edrych ar y cofrestra tir.

**5.2 Llinellau Melyn Ffordd Llwyn Bleddyn –** Adroddwyd fod y Clerc wedi cysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn i dynnu'r llinellau melyn ar ffordd Llwyn Bleddyn, dim ymateb hyd yn hyn.

**5.3 Llwybr y Llaw Feddyg, Parc Meurig -** Y les gwreiddiol angen ei adnewyddu, nid yw'r les presennol yn addas. Adroddwyd fod y Clerc wedi cysylltu â chyfreithiwr ynglŷn â llunio les newydd – ar y gweill.

**5.4 System Unffordd, Pant Glas –** Yn dilyn nifer o wrthwynebiadau gan drigolion lleol, nodwyd ni fydd y cynllun yn mynd yn ei flaen bellach.

**5.5 Addasiadau i Gorffwysfan -** Penderfynwyd bydd y Clerc yn cael pris i dynnu'r aelwyd o Gorffwysfan ac yn trefnu i gael gwared â'r cabinet - ar y gweill.

**5.6 Rheolwr Prosiect Cynlluniau Canol Tref - Strategaeth Arwyddo –** y Clerc wedi danfon awgrymiadau i Gyngor Gwynedd.

**5.7 Cais am groesfan pelican ger Llain y Pebyll** - Adroddwyd fod ceisiadau hanesyddol am groesfan yn y man hwn. Yn dilyn y cyfarfod diwethaf, nodwyd y Cyng. Paul Rowlinson ei fod wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru, a derbyniwyd ymateb - *Yn 2019, yn dilyn cais gan Lywodraeth Cymru, ymchwiliodd ein Hasiant Cefnffyrdd Gogledd Cymru hyfywedd croesfan i gerddwyr dan reolaeth yn ardal chwarae Cas-Gas / Anchor Motors / Llain y Pebyll. Oherwydd y nifer isel o gerddwyr sy'n dymuno croesi cefnffordd yr A5 ar y pryd, ni ellid cyfiawnhau darparu croesfan dan reolaeth. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried asesiad ar gyfer croesfan newydd i gerddwyr pan fydd y tai newydd wedi'u cwblhau a'u meddiannu'n llawn. Dylid nodi y bydd unrhyw asesiad yn ystyried cyflwyno'r cyfyngiad cyflymder diofyn cenedlaethol o 20mya yn ddiweddar a ddylai ei wneud yn fwy diogel i groesi'r ffordd yn y lleoliad hwn.*

**6. Sedd Wag – Ward Rachub**

Derbyniwyd un cais am y sedd wag. Yn dilyn pleidlais, cafodd Paul Rowlinson ei gyfethol i'r sedd wag.

**7. Toriadau Gwair ychwanegol**

Y Clerc wedi cael cyfarfod gyda swyddogion Cyngor Gwynedd ynglŷn â thoriadau ychwanegol. Derbyniwyd pris o £405.00 + TAW. Penderfynwyd derbyn y pris a'r Clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd.

**8. Adroddiad Partneriaeth Ogwen – Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen**

Yn dilyn gohebiaeth ddiweddar gan Bartneriaeth Ogwen am y bil trydan annisgwyl, penderfynwyd y byddai'r cyngor yn hoffi derbyn mwy o wybodaeth ynglŷn â'r bil dan sylw h.y. sut maent yn cael swm o £15,000? Y Clerc i holi os yw'r Bartneriaeth wedi herio'r gost. Nodwyd fod y Cyngor yn hapus i barhau gyda'r cyfraniad trefniant blynyddol tuag at y Llyfrgell.

**9. Cynrychiolydd ar Fwrdd Ynni Ogwen**

Yn dilyn pleidlais, penderfynwyd y bydd y Cyng. Einir Williams yn cynrychioli'r Cyngor Cymuned ar Fwrdd Ynni Ogwen.

**10. Maes Parcio Gerlan**

Adroddwyd fod y Clerc wedi bod mewn cyswllt hefo cyfreithiwr ar ran y Cyngor, ac wedi cyfarwyddo nhw i gysylltu gyda chyfreithiwr y tir feddiannwr – ar y gweill.

Anfoneb a dadansoddiad o'r costau gan YGC i gael ei gyflwyno i'r pwyllgor cyllid ym mis Ebrill.

**11. Gohebiaeth**

Roedd pawb wedi derbyn copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Mawrth 2024'

**11.1 Un Llais Cymru, Aelodaeth 2024-25** – Penderfynwyd ail ymaelodi ar gyfer y flwyddyn 2024-25.

**11.2 Charity Commission – Elusen 'Evan Richard Jones Gorffwysfan'** – Yn dilyn trafodaeth, nodwyd fod yr elusen uchod ddim yn bodoli rhagor, y Clerc i ymateb.

**11.3 Cais am rodd - Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen -** Penderfynwyd rhoi rhodd o £500.00 tuag at yr achos.

**11.4 Aelodau Clwb Ieuenctid Bethesda – Derbyniwyd llythyr gan blant ifanc y dyffryn yn gofyn am glwb ieuenctid trwy'r flwyddyn –** penderfynwyd fod y Cyngor Cymuned yn gefnogol iawn o'r cais, y Clerc i ddanfon y llythyr ymlaen at Gyngor Gwynedd gan nodi ein cefnogaeth.

**12. Penderfyniadau a Cheisiadau Cynllunio**

**<u>Penderfyniadau</u>**

**C23/0207/13/CR**

Kings Head, Stryd Fawr, Bethesda

Addasiadau mewnol
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C23/0729/13/LL**

Bron Arfon, Ffordd Llwyn Bleddyn, Rachub

Trosi adeilad allanol yn 1rh. Uned Gosod Gwyliau ynghyd â phob Datblygiad Cysylltiedig arall
**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau.

**C23/0957/13/DT**

Yr Hen Fecws, 4 Tŷ'n Y Coed, Carneddi,

Estyniad un llawr i'r eiddo presennol ac ymestyn cwrtil
**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau.

**C23/0969/13/LL**

Natwest Bank, 13 Stryd Fawr, Bethesda

Addasu'n fewnol adeilad presennol o ddefnydd busnes ar y llawr gwaelod gyda 3 fflat preswyl i ddefnydd busnes ar y llawr gwaelod gyda 6 fflat preswyl.
**Penderfyniad:** ar y gweill.

**<u>Ceisiadau</u>**

**C24/0138/13/LL**

1 Yr Ardd Fawr, Ffordd Gerlan, Gerlan

Codi annedd deuluol
**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

**13. Taliadau**

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Opus Energy | Trydan Llys Dafydd | £78.17 |
| John Wyn Jones | Cyflog Chwefror | £364.00 |
| CThEM | TWE Chwefror | £91.00 |
| Snowdonia Fire | Cynnal a chadw offer tân | £42.00 |

**14. Crynodeb Llais Ogwan**

Penderfynwyd cynnwys yr isod:

- Cyfethol Sedd Wag
- Toriadau Gwair
- Llythyr gan Aelodau Clwb Ieuenctid Bethesda
- Cynrychiolydd Bwrdd Ynni Ogwen
- Rhodd Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen
- Glanhau'r Gofeb
- Problemau baw ci yng ngardd capel Jerusalem.